



Ein Cyf: MA/EM/0945/23

Yr Athro Medwin Hughes  
Cadeirydd Bwrdd Llais

30 Mawrth 2023

Annwyl Medwin,

## Llythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth ar gyfer Corff Llais y Dinesydd (Llais) 2023-2026

Rwyf yn ddiolchgar i bawb a fu'n rhan o sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru, (y cyfeirir ato wedi hyn wrth eich enw gweithredu, Llais) am eu holl waith caled ers i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (y Ddeddf) ddod yn gyfraith ym mis Mehefin 2020. O ganlyniad, byddwch yn dod yn gorff annibynnol gyfan gwbl weithredol a fydd yn chwarae rhan hanfodol wrth lywio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar adeg pan fônt yn wynebu eu heriau anoddaf ers degawdau.

Mae hwn yn gyfnod digynsail inni i gyd, ac yn enwedig i'n system iechyd a gofal cymdeithasol a'r rhai sy'n gweithio o'i mewn. Bu galw di-baid ar ein gwasanaethau iechyd a gofal ac mae'r amgylchedd presennol yn golygu y bydd darparwyr gwasanaethau yn wynebu penderfyniadau anodd ac, mewn rhai achosion, yn gorfod gwneud newidiadau systemig i addasu. Bydd Llais yn chwarae rhan allweddol wrth barhau â'r sgysiau am y newidiadau posibl, rhannu lleisiau'r bobl yn y penderfyniadau hyn, a sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried y safbwyntiau hyn.

Yn ogystal â'ch gwaith craidd (fel y'i nodir yn y Ddeddf a'ch cytundeb fframwaith) mae'r llythyr hwn yn nodi fy nisgwyladau strategol o Llais ac yn tynnu sylw at flaenoriaethau cenedlaethol yr wyf yn credu y gall Llais gyfrannu atynt ac a fydd, rwy'n gobeithio, yn helpu i lywio'ch cynllunio tymor canolig a chreu ymdeimlad cyffredin o bwrpas.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn disgwyl i gynllun busnes blynyddol arfaethedig Llais a'r cynllun strategol tymor hwy i adlewyrchu'r amcanion strategol canlynol, gan gynnwys sut y bydd pob un yn cael ei gyflawni a'r canlyniadau a'r effaith y byddant yn eu cael:

## **1. Sefydlu a datblygu Llais fel partner, cyflogwr a sefydliad adnabyddus, dibynadwy a gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar bobl.**

Rwyf yn cydnabod bod sefydlu sefydliad newydd yn heriol ac yn gymhleth ac y bydd yn cymryd amser i adolygu, datblygu, ac ymgorffori'r holl ofynion i fod yn sefydliad effeithiol. Rwyf yn cydnabod hefyd fod y sefydliad yn dal i ddatblygu ac y bydd 2023/24 yn gyfnod pontio. Gyda hyn mewn golwg mae'n ddoeth aros yn hyblyg i ailedrych ar eich cylch gwaith yn y blynyddoedd i ddod.

O ran hyblygrwydd, wrth inni nesáu at ddechrau blwyddyn ariannol lawn gyntaf Llais fel corff gyfan gwbl weithredol, mae'n bwysig ystyried sut y byddwch yn cael eich strwythuro i gyflawni: eich rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, eich nodau strategol, a phryd a sut y bydd hyn yn cael ei adolygu o ran ei effeithiolrwydd. Yn ogystal, bydd angen ichi roi ystyriaeth ofalus i sut i hwyluso a chyflawni'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Er mwyn tanategu eich rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Ddeddf, mae'n hanfodol i Llais barhau i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedaeth uchel â sefydliadau partner a'r cyhoedd. Edrychaf ymlaen at ddysgu sut y mae Llais yn manteisio i'r eithaf ar ei ymgysylltiad a'i waith partneriaeth o fewn y tirlun iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd angen i Llais ddatblygu memoranda cyd-ddealltwriaeth a threfniadau cydweithredu yn sail i'r cydberthnasau hyn. Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys a chymryd i ystyriaeth gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data mewn perthynas â rhannu data a gwybodaeth bersonol.

Bydd yn bwysig hefyd ystyried sut yr ydych yn datblygu fel sefydliad er mwyn cael yr effaith fwyaf. Edrychaf ymlaen at weld sut yr ydych chi'n cynllunio ac yn cyflwyno'ch cynllun datblygu sefydliadol a fyddai'n ymdrin â meysydd megis:

- integreiddio sawl diwylliant Cyngor Iechyd Cymuned yn un diwylliant sefydliadol,
- datblygu fframweithiau sgiliau a gallu cenedlaethol,
- datblygu eich ffyrdd o weithio
- asesu perfformiad a
- esblygiad y gwerthoedd a'r ymddygiadau sy'n sylfaen i'r ffordd yr ydych yn gweithio.

Byddwn hefyd yn disgwyl i Llais, yn enwedig o gofio'r cyd-destun economaidd, weithredu'n effeithiol ac i safon uchel o lywodraethiant, atebolrwydd ac uniondeb, gan fodloni'r gofynion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gweithio gyda'r tîm partneriaeth, y Prif Swyddog Cyfrifyddu neu'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol mewn ffordd agored, onest ac adeiladol gan sicrhau bod yr holl amserlenni cyhoeddi angenrheidiol yn cael eu dilyn i sicrhau tryloywder.

## **2. Cysylltu â'r cyhoedd drwy hygyrchedd a chynhwysiant.**

Mae'n bwysig imi fod pobl Cymru yn teimlo cysylltiad â Llais, bod y sefydliad yn gweithio iddyn nhw a'u buddiannau, ac y gellir ymddiried ynddo i gyflawni blaenoriaethau'r bobl i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y GIG, yr Awdurdodau Lleol a llunwyr polisi cenedlaethol ledled Cymru.

Dyna pam mae'n hanfodol bod Llais yn hygyrch i bob dinesydd ac yn sicrhau ei fod yn mynd yr ail filltir i gynnwys pob grŵp cymunedol ar draws Cymru wrth geisio safbwyntiau.

Mae'r pandemig wedi dangos inni na allwn gymryd yn ganiataol y bydd gwasanaethau yn aros yr un fath neu y dylent aros yr un fath ac mewn gwirionedd dylent barhau i ddatblygu gyda chanolbwynt ar bobl. Mae dod â lleisiau newydd i'r trafodaethau ar iechyd a gofal yn hanfodol i sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n adlewyrchu anghenion newidiol y bobl.

Mae'r pandemig hefyd wedi taflu goleuni ar sut y mae rhaid i ddigidol, technoleg ac arloesi barhau i fod yn sail i'r system iechyd a gofal a sut mae ymgysylltu wyneb yn wyneb wedi symud ymlaen, gan ddefnyddio ffyrdd modern o gyfathrebu ac ymgysylltu. Byddwn yn gobeithio gweld Llais yn adeiladu ar y datblygiad hwn ac yn gweithio mewn ffyrdd arloesol sy'n gweddu orau i'r cyhoedd. Byddwn yn gobeithio gweld Llais yn adlewyrchu'r dulliau yn y Strategaeth Ddigidol Cymru a Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru i sicrhau bod defnyddwyr yn cael profiad o ymgysylltu modern ac effeithlon â Llais.

Dylai strategaethau a pholisïau sefydliadol Llais ar ymgysylltu, cyfathrebu, cydraddoldeb a digidol adlewyrchu dull arloesol sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn gyfiawn ac sy'n canolbwyntio ar bobl.

### **3. Gwrando a chynrychioli safbwyntiau - Cymru Iachach**

Mae'n bwysig bod sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i weithio tuag at wireddu'r amcanion a nodir yn Cymru Iachach. Rhaid i'r gwaith ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol barhau fel nad yw pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn sylwi pan gânt eu darparu gan sefydliadau gwahanol, bod gwasanaethau lleol yn dysgu oddi wrth ei gilydd a bod arferion gorau yn cael eu defnyddio ledled Cymru. Yn ogystal, mae symud gwasanaethau allan o'r ysbyty ac yn agosach at gartrefi pobl, ac atal pobl rhag mynd yn sâl drwy atal a chanfod risg yn gynt yn hanfodol bwysig.

Bydd Llais mewn sefyllfa unigryw i gefnogi Cymru Iachach trwy estyn allan, gwrando, dadansoddi a rhannu'n dactegol y materion sydd bwysicaf i'r cyhoedd er mwyn caniatáu i Llais gynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol. Rwyf yn edrych ymlaen at glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud mewn ffordd sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ac y mae modd i ddylunwyr gwasanaethau gweithredu arno.

### **4. Rhoi ystyriaeth gyfartal i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae'r Cynghorau Iechyd Cymunedol wedi bod yn gweithio gyda'r GIG yng Nghymru ers bron 50 mlynedd ac er y bydd y berthynas rhwng Llais a sefydliadau iechyd yn esblygu'n rhywbeth gwahanol, bydd sylfeini dealltwriaeth sefydliadol a chydb berthnasau llawn ymddiriedaeth eisoes yn bodoli. Nid yw hyn yn wir yn achos yr Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae rhaid i Llais roi ystyriaeth gyfartal i sut y bydd yn gweithio'n fwyaf effeithiol gyda'r cyhoedd a sefydliadau partner ar faterion sy'n ymwneud â materion gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gall hyn olygu i ddechrau neilltuo mwy o adnoddau i feithrin yr wybodaeth sefydliadol, meithrin cydberthnasau ym maes gofal cymdeithasol ac ymgysylltu â phobl Cymru i glywed yr hyn sydd bwysicaf iddynt mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol.

O ran eiriolaeth cwynion, mae gennyf ddiddordeb arbennig i weld sut y bydd Llais yn hyrwyddo'r gwasanaeth hwn ac yn cefnogi'r cyhoedd wrth gyflwyno cwynion i'w Hawdurdodau Lleol am wasanaethau cymdeithasol a'r effaith gadarnhaol y bydd hyn yn ei chael. Bydd angen i Llais ystyried hefyd sut mae'n gweithio gyda darparwyr eiriolaeth statudol a'r safonau a'r fframweithiau cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag eiriolaeth yng Nghymru.

## **5. Cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd**

Byddwch yn fwy ymwybodol na rhai y daw'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd i rym ym mis Ebrill 2023. Mae'r GIG wedi bod yn paratoi ar gyfer hyn ac wrth i Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig ddod i ddeall a gweithredu'r Dyletswyddau yn llawn mewn ffordd ystyrlon, rwyf yn credu y bydd gan Llais rôl allweddol wrth gyfleu i'r GIG beth mae'r newid hwn wedi ei olygu i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae'r rôl hon yn arbennig o bwysig i alluogi cyrff y GIG i ddeall drwy'r adborth hwn unrhyw wersi i wella gofal a phrofiad y rhai sy'n derbyn gofal iechyd.

Bydd rhaid i'ch proses gwyno a'ch eiriolwyr hefyd fod yn effro i'r newidiadau hyn a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt pan fyddant yn rhyngweithio â chorff y GIG sy'n darparu dyletswydd gonestrwydd i'r cyhoedd.

Rwyf yn sylweddoli y bydd hyn yn newid mawr a rhaid inni ganiatáu amser i'r Dyletswyddau ennill eu plwyf, felly byddaf yn dilyn hyn gyda diddordeb hwn wrth iddo esblygu.

## **6. Diogelwch Cleifion**

Rwyf yn rhagweld y byddwch yn ymwneud yn agos â phrofiadau pobl a chleifion sy'n dioddef niwed sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau y maent yn eu cael. Rwyf yn disgwyl i Llais roi gwella diogelwch y cyhoedd a chleifion wrth wraidd ei nodau a'i gamau gweithredu ac ichi gyflwyno sylwadau pan fyddwch yn teimlo y gellir gwneud gwelliannau yn ansawdd a diogelwch y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a ddarperir.

Byddwch yn ymwybodol bod argymhelliad wedi ei wneud y dylai pob gwlad benodi Comisiynydd Diogelwch Cleifion. Nid wyf wedi cytuno i hyn ar hyn o bryd, gan y bydd holl elfennau unigol y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu, gan gynnwys sefydlu Llais, yn cryfhau ein prosesau ar gyfer profiad, ansawdd a diogelwch cleifion. Rwyf yn dymuno rhoi'r cyfle i'r mecanweithiau hyn fod mor effeithiol â phosibl.

Er mwyn galluogi hyn, rwyf yn disgwyl i Llais ddatblygu ffocws ar wella diogelwch y cyhoedd, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau o fewn ei bolisiâu a'i weithdrefnau gweithredu.

## **7. Ystyried y cyd-destun strategol ehangach**

Yn olaf, dylai Llais fod yn ystyried yr ystod o strategaethau cenedlaethol perthnasol a ddylai lywio ei waith, a gwaith sefydliadau eraill, wrth gynllunio a chyflawni ei swyddogaethau. Rwyf wedi cyfeirio at rai strategaethau eisoes uchod ond rhai eraill y mae angen i Llais eu hystyried yw:

- Dyma'r chwe blaenoriaeth rwyf wedi'u gosod ar gyfer y gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru i helpu i fynd i'r afael â'r pwysau uniongyrchol a chreu gwasanaethau cynaliadwy:

- Cydberthynas agosach rhwng y GIG a llywodraeth leol er mwyn mynd i'r afael ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, a gwneud ymgais i symud ymhellach a darparu gwasanaeth gofal integredig yn y gymuned.
- Sicrhau bod gwasanaethau ymarfer cyffredinol, deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth ar gael yn haws.
- Sicrhau bod gofal brys a gofal mewn argyfwng yn canolbwyntio ar reoli pobl ag anghenion gofal brys yn y gymuned yn effeithiol 24/7, ac yn helpu rhagor o bobl i fanteisio'n ddiogel ar ddewisiadau eraill yn lle gofal yn yr ysbyty.
- Blaenoriaethu gofal ac adfer wedi'u cynllunio, gan symud gwasanaethau, y gweithlu a chyllid o ysbytai i'r gymuned.

- Sicrhau bod tegwch a chydaddoldeb rhwng gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn cyflawni'r datganiad ansawdd ar ganser ac yn lleihau'r ôl-groniad o gleifion.
- Sicrhau gwelliannau yn y gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a thegwch a chydaddoldeb rhwng gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

- Y dull gweithredu ar gyfer yr economi sylfaenol a sut mae'r GIG a darparwyr gofal yn gallu ymateb i'r argyfwng costau byw ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a staff.

- Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) a nodir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Mae hyn yn cydnabod y gall cyrff cyhoeddus gynnig cyfraniad pwysig wrth gyflawni nodau llesiant hirdymor Cymru.

Bydd yn ofynnol i Llais ddarparu tystiolaeth i'w Dîm Partneriaeth sut mae'n cymhwysu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r Amcanion Strategol, ac mae'n cael ei annog i ystyried sut y gall Llais wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant.

- Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTTC+ a'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl yno i ymgorffori newidiadau a gwerthoedd ystyrlon fel rhan o fywyd Cymru. Rhaid i Llais barhau i lywio a darparu sicrwydd bod eich strategaethau a'ch cynlluniau'n adlewyrchu eu gofynion.

- *Mwy na geiriau 2022-27* yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol a'i nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i gael gofal yn eu hiaith gyntaf. Yn ogystal mae *Cymraeg 2050* hefyd yn nodi'r uchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Byddwch yn ymwybodol bod gan Llais gamau gweithredu penodol eisoes gyda rhai o'r cynlluniau gweithredu hyn:

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol:

- sefydlu cydberthnasau â sefydliadau a ariennir gan leiafrifoedd ethnig, yr awdurdodau lleol, cyrff y GIG a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed a'u hadlewyrchu.

Mwy na geiriau:

- Helpu i nodi a datblygu ymchwil a data a fydd yn cryfhau dealltwriaeth a gwybodaeth ar sail profiadau siaradwyr Cymraeg sy'n cael mynediad at wasanaethau.
- Darparu cyngor o brofiad a safbwyntiau cleifion ac unigolion ar gynnydd wrth fynd ati i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y Gymraeg.

Wrth i gynlluniau gweithredu cenedlaethol eraill gael eu rhoi ar waith bydd disgwyl i Llais ymgysylltu a datblygu camau gyda'u tîm partneriaeth.

## Cyllid

Prif Weithredwr Llais, fel Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol am reoli cyllid gan Lywodraeth Cymru a rheoli cyllidebau Llais. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn unol â'r Ddogfen Fframwaith a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

Cyfanswm y Cymorth Grant i Llais yn 2023/24 i gyflawni eu blaenoriaethau fel y'u nodir yn y Ddeddf ac yn unol â'r trafodaethau a chytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llais yw £6,754,000.

Nodir cadarnhad o gyllid ar gyfer blwyddyn gyntaf gweithgarwch yn y llythyr sy'n cadarnhau cyllid blynyddol. Bydd arwydd o'r cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod hefyd yn cael ei ddarparu lle bo modd. Byddwch cystal â nodi y gallai'r cyllid dangosol hwn ostwng neu gynyddu yn ôl sawl ffactor, gan gynnwys:

- Newid ym mlaenoriaethau'r Llywodraeth neu bortffolios y Gweinidogion;
- Gwamaliadau yn y gyllideb;
- Canlyniadau Adolygiadau wedi'u Teilwra

Mae lefelau cyllido yn seiliedig ar ymrwymadau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae Gweinidogion Cymru'n cadw'r hawl i adolygu dyraniadau a blaenoriaethau, a fydd yn cefnogi gweledigaeth strategol y Llywodraeth a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Rwyf yn ddiolchgar am y bartneriaeth gadarnhaol barhaus y mae Llais wedi'i datblygu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn y Gangen Ansawdd a Nyrsio wrth ichi gael eich sefydlu. Rwyf yn gobeithio gweld y bartneriaeth hon yn parhau i aeddfedu ac i weld diwylliant o gefnogaeth, ymddiriedaeth a her adeiladol yn datblygu yn y dyfodol.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services